**CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL**

**PENDERFYNIAD WEDI'I DDIRPRWYO I AELOD PORTFFOLIO**
**gan**
**Y CYNGHORYDD SIROL MYFANWY ALEXANDER**
**(AELOD PORTFFOLIO DYSGU A'R IAITH GYMRAEG)**
**Dyddiad: Mai 2018**

**AWDUR YR ADRODDIAD: Swyddog Iaith Gymraeg**

**TESTUN: Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

---

**ADRODDIAD ER: Penderfyniad**

---

## 1. Crynodeb

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad statudol ar Gyngor Sir Powys i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, i ystyried effaith ei wasanaethau a'i bolisiau ar y Gymraeg, ac i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn ei ardal.

Derbyniodd y Cyngor Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015, ac fe gytunodd y Cabinet arno yn Ionawr 2016. Daeth y Safonau i rym ar 30 Mawrth 2016.

O fewn yr Hysbysiad Cydymffurfio, mae'r adran ar Safonau Hybu'r Gymraeg yn cynnwys Safon i lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg, fel a ganlyn;

<u>Safon 145</u>
Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) –
(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Fel nofer o ardaloedd awdurdodau lleol eraill Cymru, gwelodd Powys ostyngiad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, o25,798 neu 21.1% o boblogaeth y sir yn 2001, i 23,990 neu 18.6% o'r boblogaeth yn ôl Cyfrifiad 2011. Mae'r darlun cyffredinol hwn yn debyg iawn i un Cymru gyfan, a welodd ostyngiad o 20.8% yn 2001 i 19% yn 2011, ac yn gyson â'r hyn a welwyd mewn ardaloedd eraill, megis Ynys Môn, Conwy, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg arfaethedig, sydd i'w gweld yn Atodiad A, yn amlinellu 6 maes gweithredu allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg, gyda chamau gweithredu ym mhob un sy'n cyd-fynd â'r 3 thema strategol a ddynodwyd o fewn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sef a) cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; b) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; ac c) creu amodau ffafriol i'r iaith Gymraeg ffynnu.

Mae'r 6 maes gweithredu allweddol fel a ganlyn;

1. Cynllunio a Pholisi Iaith
2. Normaleiddio
3. Addysg
4. Pobl
5. Cefnogi
6. Hawliau

Targed y Cyngor trwy'r Strategaeth hon, a'r strategaethau fydd yn ei dilyn yw cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. I gyflawni hynny, rhaid bod traean o boblogaeth Powys yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

Targed y Strategaeth hon fydd adfer canran y siaradwyr Cymraeg ym Mhowys i o leiaf lefel Cyfrifiad 2001, sef 21.1%.

## 2. Cynnig

Mabwysiadu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg arfaethedig, sydd i'w gweld yn Atodiad A, i greu amodau ffafriol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ym Mhowys

## 3. Dewisiadau a Ystyriwyd / Sydd ar Gael

D/B

## 4. Y Dewis a Ffefrir a'r Rhesymau

Fel uchod

## 5. Asesiad Effaith

| | | |
|---|---|---|
| 5.1 | A oes angen asesiad effaith? | Oes |
| 5.2 | Os felly, a yw wedi'i atodi? | Ydi |

## 6. Cynllun Gwella Corfforaethol

Bydd y cynnig yn cefnogi llesiant, trwy annog rhagor o gyfleoedd cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg, a chysylltu siaradwyr Cymraeg trwy dechnoleg, ac yn cryfhau sgiliau, gan baratoi pobl ar gyfer cyfleoedd gwaith dwyieithog.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu methiant i gydymffurfio â'r Safonau, gan olygu y gallai'r Cyngor wynebu Ymchwiliad Safonau'r Gymraeg, fyddai'n cael ei gynnal gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan arwain at ddifrod i enw da'r awdurdod, ynghyd â chosb ariannol bosibl.

## 7. <u>Aelod(au) Lleol</u>

D/B

## 8. <u>Gwasanaethau Rheng Flaen Eraill</u>

A yw'r argymhelliad yn cael effaith ar wasanaethau eraill sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor neu ar ran y Cyngor? Nac Ydi

Os felly, rhowch eu sylwadau

## 9. Cyfathrebu

A yw'r Adran Gyfathrebu wedi gweld yr adroddiad? Ydi

A oes sylwadau ganddynt? Os felly, rhowch y sylwadau yma.

## 10. <u>Gwasanaethau Cefnogi (Cyfreithiol, Cyllid, Eiddo Corfforaethol, AD, TGH, Gwasanaethau Busnes)</u>

10.1 Cyfreithiol: Gellir cefnogi'r cynnig o safbwynt cyfreithiol.

10.2 Cyllid: Rydym wedi nodi cynnwys yr adroddiad a dylai unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ddod o gyllideb bresennol yr Iaith Gymraeg.

## 11. <u>Craffu</u>

A yw'r adroddiad hwn wedi cael ei graffu? Na

Os felly, nodwch pa fersiwn a dyddiad craffu ar yr adroddiad?
Nodwch y sylwadau.
Pa newidiadau a wnaed ers y dyddiad Craffu, ac esboniwch pam fod yr argymhellion Craffu wedi'u derbyn neu wrthod?

**12. Swyddogion Statudol**

12.1 Mae Cyfreithiwr y Cyngor (Swyddog Monitro) wedi rhoi sylwadau fel a ganlyn: "Nodaf y sylwadau cyfreithiol ac nid oes gennyf unrhywbeth i'w ychwanegu at yr adroddiad."

12.2 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol (Dirpwy Swyddog Adran 151) yn nodi'r sylwadau Cylli.

**13. Diddordebau'r Aelodau**

Nid yw'r Swyddog Monitro'n ymwybodol o unrhyw ddiddordebau penodol allai godi mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Os oes gan yr Aelod Portffolio ddiddordeb, dylid cwmblhau'r hysbysiad perthnasol a chyfeirio'r mater at y Cabinet er penderfyniad.

| **Argymhelliad:** | **Rheswm am yr Argymhelliad:** |
|---|---|
| Mabwysiadu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg arfaethedig, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn | I greu amodau ffafriol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg ym Mhowys, ac i sicrhau cydymmfuriaeth â Safonau'r Gymraeg |

| **Polisi(au) Perthnasol:** | | | |
|---|---|---|---|
| **O fewn Polisi:** | **Y** | **O fewn y Gyllideb:** | **Y** |

| | |
|---|---|
| **Aelod(au) Lleol Perthnasol:** | **D/B** |

| | |
|---|---|
| **Person(au) i weithredu'r Penderfyniad:** | **Swyddog Iaith Gymraeg** |
| **Dyddiad ar gyfer gweithredu'r penderfyniad:** | **Mai 2018** |


| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Bedwyr Fychan |
| Ffôn: | 01597 826126 |
| E-bost: | bedwyr.fychan@powys.gov.uk |


**Background Papers used to prepare Report:**